



Rheolwyr cartrefi gofal i oedolion ar y Gofrestr - 1 Ebrill 2022



Beth yw'r pwyntiau allweddol?

- Mae rheolwyr cartrefi gofal i oedolion wedi gorfod cofrestru gyda ni ers 2011
- Mae 1,330 o reolwyr wedi cofrestru, sy'n gynydd bach o 1,314 yn 2021
- 49 yw oedran cyfartalog rheolwyr
- Mae gweithwyr cartrefi gofal i oedolion wedi gorfod cofrestru hefyd ers mis Hydref 2022.



Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

- Mae'r ystadegau sy'n ymwneud â'r grŵp hwn o weithwyr ar ein Cofrestr yn parhau'n sefydlog
- Mae'r gymhareb menywod: dynion wedi parhau'r un fath ar oddeutu 4:1
- Mae canran y rheolwyr sydd â chymhwyster FfCCh Lefel 5 wedi cynyddu o 31% yn 2017 i 53% eleni
- Mae canran y rheolwyr sydd naill ai'n siarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl wedi cynyddu o 37% i 45%.



Faint ymunodd â'r Gofrestr a'i gadael?

- Y llynedd, fe wnaeth 208 o reolwyr adael y Gofrestr a ymunodd 224 - trosiant o 16%
- Wnaeth 52% o'r rhai adawodd ddim parhau â'u cofrestriad
- Fe wnaeth 6% ymddeol
- Doedd 13.5% ddim yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru mwyach
- Arhosodd 12% ar y Gofrestr mewn rôl wahanol.



Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

- Mae gan bob rheolwr cartref gofal i oedolion gymhwyster perthnasol
- Bellach, mae gan 53% Ddiploma Lefel 5 FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Preswyl Oedolion) neu gymhwyster Lefel 5 cyfatebol
- Mae gan bawb arall gymhwyster cyfatebol derbynol.



Ble mae rheolwyr yn gweithio?

- Mae 82% yn gweithio yn y sector preifat
- Mae 11% yn gweithio i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- Mae 6% yn gweithio yn y trydydd sector
- Mae 27% o reolwyr wedi bod yn eu swydd bresennol ers dros 10 mlynedd
- Mae 51% o reolwyr wedi dechrau ar rôl newydd yn y pum mlynedd diwethaf.



Beth yw proffil rheolwyr?

- Mae 1048 o fenywod a 281 o ddynion. Dywedodd un rheolwr ei fod yn rhyweddhylifol
- 49 yw oedran cyfartalog rheolwyr
- Mae 93% o reolwyr nail ai'n wyn, yn wyn Prydeinig, yn wyn Cymreig neu'n wyn Gwyddelig
- Mae 45% naill ai'n siarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl
- Mae gan 1% o reolwyr anabled.